TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 10 Tachwedd 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

## Atebion i'ch Cwestiynau

1. **Pam gafodd mynediad i bobl anabl/cadeiriau olwyn ei ddiystyru yng Ngorsaf Cogan yn 2019? Cafodd yr hen bont droed ei dymchwel a gosodwyd un newydd. Rydyn ni'n gofyn pam na osodwyd Lifftiau ar y bont droed newydd a fyddai'n caniatáu i bobl anabl a defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad at blatfform 2. Ar hyn o bryd, mae'n amhosibl i bobl mewn cadeiriau olwyn gael mynediad at Blatfform 2, ac yn ôl arolwg a gynhaliwyd gennyf fi, mae llawer o drigolion a chymudwyr yn anhapus nad ydynt yn gallu defnyddio eu gwasanaethau trên agosaf, ac yn dewis defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus amgen yn lle hynny.**

   Mae'r bont droed yng Ngorsaf Cogan yn strwythur rhestredig ac, o'r herwydd, ni chafodd ei dymchwel ond yn lle hynny, cafodd ei symud a'i hadnewyddu. Network Rail sy'n berchen ar y bont, a Network Rail oedd yn gyfrifol am unrhyw benderfyniadau a wnaed i dynnu/adnewyddu'r bont a'r gwaith dilynol a gwblhawyd. Nid yw TrC yn gallu ateb y cwestiwn hwn, ac yn awgrymu'n gwrtais eich bod yn ailgyfeirio eich ymholiad i Network Rail, naill ai drwy gysylltu â'r rheini sy'n ymwneud â'r prosiect 'Transformation Sation' neu drwy gyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth ffurfiol i'r cyfeiriad canlynol: FOI@networkrail.co.uk.

2. **A oes gan TrC unrhyw gynlluniau ar gyfer gwella gorsafoedd bach mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd o gwmpas trefi, fel Cogan? Os oes, beth yw'r cynlluniau arfaethedig?**

   Mae gan TrC rai cynlluniau ar gyfer gwella'r gorsafoedd hyn, ond rydym wrthi'n datblygu cwmpas y gwaith hwn ar hyn o bryd, ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau penodol i'w rhannu ar hyn o bryd.

3. **A yw TrC yn teimlo bod diffyg amwynderau a gwasanaethau cyhoeddus i gwsmeriaid a phobl leol mewn gorsafoedd llai fel Cogan?**

   Sylwch fod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi hawl mynediad cyffredinol i bob math o wybodaeth gofnodedig sy'n cael ei chadw gan awdurdodau cyhoeddus ac nad yw'n cynnwys, er enghraifft, safbwyntiau, dyfarniadau neu farn unrhyw unigolyn o fewn yr awdurdod cyhoeddus dan sylw, oni bai fod hynny eisoes wedi'i gofnodi. Gan fod eich cwestiwn yn gofyn am farn oddrychol nad ydym yn ei dal fel cofnod, mae'n dod y tu allan i gwmpas y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

4. ***Sut mae pandemig Covid 19 wedi effeithio ar y rhwydwaith teithio ar drenau?***
   Mae pandemig y Coronafeirws wedi effeithio ar bob math o drafnidiaeth ar draws y wlad, gan gynnwys rheilffyrdd. Yn benodol, rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y galw gan deithwyr; effaith ar ein cadwyn gyflenwi a'n gallu i gyflawni prosiectau; cyflwyno mesurau diogelu ychwanegol; a'r newidiadau sefydliadol sylweddol a brofwyd gan TrC o ganlyniad i'r pandemig (mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yma). Mae ein hymateb i'r pandemig wedi golygu bod angen cymryd nifer o gamau, gan gynnwys:

   Effaith Uniongyrchol a Gweithredol

- Diogelu ein gweithwyr ein hunain drwy hwyluso gweithio diogel gartref i'r rheini nad ydynt mewn rolau gweithredol rheng flaen. Rhoddir ystyriaeth bellach i weithwyr agored i niwed, y mae gennym ddyletswydd gofal ychwanegol tuag atynt.

- Gweithredu adolygiadau o dasgau i sicrhau bod arferion gweithio yn ddiogel o ran COVID;
- Rhoi methodolegau gweithio mwy diogel newydd ar waith ar gyfer staff rheng flaen, gan gynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a gofynion o ran gorchuddion wyneb drwy gydol y diwrnod gwaith (gan gynnwys wrth newid shifft ac ar egwyliau).
- Cyhoeddi a dosbarthu, yn ogystal â hyfforddiant pellach ar Gyfarpar Diogelu Personol ychwanegol a gorchuddion wyneb.
- Sicrhau bod cymaint o fflyd â phosibl ar gael i gefnogi cadw pellter cymdeithasol.
- Adolygiad o systemau gwresogi ac oeri aer ar drenau i sicrhau bod aer ffres yn cael ei dynnu i mewn i'r trên yn hytrach na chael ei ailddosbarthu.
- Proses a gweithdrefnau gwell ar gyfer delio ag aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â chymorth cyntaf, mynediad i gadeiriau olwyn, ac ati.
- Cael gwared ar wasanaethau arlwyo ac ailhyfforddi'r timau yr effeithir arnynt i gefnogi gweithgareddau glanhau ar drenau ac mewn gorsafoedd.
- Cyflwyno offer ac arferion glanhau newydd, yn ogystal â threfniadau glanhau ychwanegol.
- Gwelwyd nifer y defnyddwyr yn syrthio i lai na 5% o'r lefelau cyn COVID yn ystod y cyfnod clo cyntaf (23 Mawrth - 29 Mai 2020). Nid yw'r galw wedi gwella'n llwyr o hyd i lefelau cyn COVID oherwydd bod gofyniad Llywodraeth Cymru i weithio gartref pan fo'n bosibl yn dal mewn grym.
- Gostyngiad yn nifer y staff sydd ar gael gan fod unigolion ac aelwydydd yn ynysu.
- Sefydlu fforymau diwydiant newydd i rannu arferion gorau ac awdurdodau rheoleiddio safonau.
- Cydweithio'n agos â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur i gymeradwyo ffyrdd newydd o weithio a rheoli risg.
- Llai o hyfforddiant yn gorfforol agos.
- Rheoli ac ymdopi ag effeithiau ar y gadwyn gyflenwi.

<u>Effaith ar Gwsmeriaid a Diwydiant</u>

- Diogelwch ychwanegol i gefnogi/gwella mesurau cadw pellter cymdeithasol, y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb a theithiau nad ydynt yn hanfodol.
- Cyflwynwyd systemau ciwio newydd i reoli cadw pellter cymdeithasol ar drenau.
- Mwy o ddewisiadau teithio heb docyn.
- Rhoi ein Hymgyrch Teithio'n Saffach ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid, ac i hyrwyddo teithio llesol.
- Cyflwyno'r gwiriwr capasiti i helpu cwsmeriaid i wneud penderfyniadau ynghylch pryd mae'n well teithio ar y trên.
- Cefnogi gweithwyr allweddol a hanfodol.
- Defnyddio staff a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i reoli ymddygiad cwsmeriaid a chydymffurfio â gofynion rheoliadol.
- Gwelwyd ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd sy'n gysylltiedig â COVID, fel poeri, gweiddi a gwrthod cadw at y gofynion cadw pellter cymdeithasol.
- Gwelwyd newid yn ymddygiad teithwyr ar y trenau. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad mewn teithio gan gymudwyr; mwy o wyliau tymhorol yn y DU a theithiau i lan y môr ar benwythnosau, gwyliau banc a gwyliau ysgol.
- Rheoli pryderon gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch mesurau sy'n ddiogel o ran COVID.
- Ymgysylltu â lleoliadau i annog cydymffurfio â rheolau COVID wrth deithio.

5. ***Beth yw'r effeithiau ar nifer y bobl sy'n defnyddio'r trenau o'i gymharu â chyn y pandemig?***

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd rheilffyrdd diwethaf ym mis Medi 2021, roedd y teithiau ar rwydwaith Cymru a'r Gororau ar 60.7% o'r lefelau cyn COVID.

6. ***Sut mae TrC yn bwriadu denu mwy o bobl i orsafoedd bach a'u hannog i ddefnyddio'r Rhwydwaith Rheilffyrdd yn amlach?***

Mae TrC yn datblygu cynllun blynyddol i gynyddu'r defnydd a wneir o'r rhwydwaith, gan gwmpasu ystod eang o weithgareddau. Mae ein cynlluniau'n ceisio denu teithwyr ar draws y rhwydwaith cyfan ac nid ydynt yn canolbwyntio ar orsafoedd o faint penodol. Mae ein gweithgareddau'n cynnwys mentrau sy'n canolbwyntio ar gynnyrch a phrisiau tocynnau, marchnata a chyfathrebu, profiad yn y gorsafoedd, technoleg ddigidol a gweithgareddau gweithredol. Bydd ein hymgyrch farchnata wedi'i harwain gan frandiau hefyd yn gweithio i gefnogi twf ar draws pob math o drafnidiaeth gynaliadwy, gan gynnwys bysiau, teithio llesol a threnau, a dyma ddechrau'r gweithgarwch ehangach i newid dulliau teithio y bydd ei angen i gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".